

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol a Amrywiol) 2024

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2. Mae Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol a Amrywiol) 2024 (“y Rheoliadau”) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 18 Ionawr 2024. Maent i'w gweld yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2024/9780348256420/contents>

3. Mae copïau o'r Rheoliadau a'r dogfennau cysylltiedig wedi eu gosod gerbron y Senedd heddiw ochr yn ochr â'r memorandwm hwn.

Crynodeb o'r Offeryn a'i amcan

4. Amcan y Rheoliadau yw gwneud diwygiadau sy'n ganlyniad i Ddeddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 a gwneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 mewn perthynas â rheoleiddio tai cymdeithasol.

5. Mae'r Ddeddf honno'n gwneud darpariaeth i wella'r ffordd y mae darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig yn cael eu rheoleiddio yn Lloegr, gan gynnwys y cyrff a allai fod yn gymwys i gofrestru'n wirfoddol, y gyfundrefn moratoriwm tai, a gwella'r pwerau gorfodi sydd gan y rheoleiddiwr. Mae hefyd yn diwygio'r gyfundrefn gweinyddu tai arbennig.

6. Yn unol â'r amcanion hynny, mae'r Rheoliadau'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a ganlyn:

- a. Deddf Tai ac Adfywio 2008
- b. Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999
- c. Deddf Elusennau 2011
- d. Deddf Tai a Chynllunio 2016

7. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio is-ddeddfwriaeth yn Rheoliadau Rhenti Tai Cymdeithasol (Eithriadau a Darpariaethau Amrywiol) 2016.

8. Rhychwant tiriogaethol y rheoliadau hyn yw Cymru a Lloegr, ac eithrio'r darpariaethau sy'n diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2016 (sef Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan yr Offeryn y ceisir cydsyniad ar ei gyfer

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr holl ddarpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 1 ac yn Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r darpariaethau hyn yn gwneud diwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Mae Deddf Tai ac Adfywio 2008 yn rhychwantu Cymru a Lloegr, ac mae'n gymwys i Gymru. Fodd bynnag, ymwneud â'r gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr y mae Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008, a chyfyngedig yw ei heffaith ymarferol yng Nghymru. Mae cyfundrefn reoleiddiol Lloegr yn gymwys i ddarparwyr tai cymdeithasol yn Lloegr, y mae nifer bach ohonynt yn berchen ar, neu'n rheoli, unedau tai cymdeithasol yng Nghymru (cyfanswm o ryw 500 o unedau). O'r herwydd, mae'r diwygiadau'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i'r graddau y maent yn gymwys i'r nifer bach hwnnw o ddarparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â stoc dai yng Nghymru.

10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 9 uchod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

11. Rwyf wedi argymhell yn flaenorol fod aelodau'r Senedd yn rhoi eu cydsyniad i'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yr oeddwn yn eu hystyried yn ofynnol mewn perthynas â Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 a oedd yn diwygio Deddf Tai ac Adfywio 2008, ar yr un sail.

12. Mae'r diwygiadau i ddarpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn cynnwys y canlynol:

- a. diwygiadau sy'n ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023;
- b. diwygiadau sy'n ychwanegu eglurder at ddarpariaethau;
- c. diwygiadau sy'n "tacluso'r" deddfwriaeth;
- d. diwygiadau sy'n mewnosod croesgyfeiriad at le y gellir dod o hyd i'r term diffiniedig;
- e. diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau anweithredol e.e. y pennawd neu'r term diffiniedig; a
- f. diwygiadau amrywiol sy'n tacluso deddfwriaeth.

13. O ran y diwygiadau sy'n weddill yn yr Offeryn, naill ai nid ydynt yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, neu maent yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol nad yw o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae'r offeryn hefyd yn cynnwys diwygiadau i offeryn statudol nad yw o fewn cymhwysedd y Senedd.

Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon

14. Fel yr amlinellwyd yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â thaith Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023, roeddwn o'r farn ei bod yn briodol argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i ddarpariaethau'r Ddeddf honno, a oedd â'r nod o wella'r ffordd y mae darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig yn Lloegr yn cael eu rheoleiddio.

15. Fel y nodir yn y Memoranda Deddfwriaethol hynny ac uchod, er mai ymwneud â'r gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr y mae Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ac er mai cyfyngedig yw'r effaith ymarferol y mae'n ei chael yng Nghymru, mae'r diwygiadau i Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn y Ddeddf a'r Offeryn hwn yn effeithio ar Gymru i'r graddau y maent yn gymwys i'r nifer bach o ddarparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â stoc dai yng Nghymru.

16. Fy marn i yw y bydd y Ddeddf honno, o'i gweithredu'n briodol, ac fel y'i cefnogir gan yr offeryn hwn, yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar brofiadau tenantiaid y rhyw 500 o unedau tai cymdeithasol yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr cofrestredig neu sy'n cael eu rheoli gan ddarparwyr cofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer tai cymdeithasol yn Lloegr.

17. Rwyf o'r farn, felly, ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn yr Offeryn hwn.

Goblygiadau ariannol

18. Nid yw cydsynio i'r darpariaethau yn yr Offeryn Statudol yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
19 Ionawr 2024